diogelwch dŵr Cymru
water safety Wales



# Siaradwch â'ch plant am ddiogelwch dŵr!

**Gall llifogydd a rhew yn y gaeaf fod yn beryglus i blant. Cadwch eich plant yn ddiogel a siaradwch â nhw am ddiogelwch dŵr.**

## CADWCH DRAW O'R YMYLON

- Cadwch draw o lannau llithrig.
- Peidiwch byth â cherdded neu chwarae ar rew.
- Cadwch at fannau sydd wedi'u goleuo'n dda a chynlluniwch eich teithiau cerdded yn ystod golau dydd.
- Osgowch gerdded neu yrru drwy ddŵr llifogydd.

## OS BYDDWCH CHI'N SYRTHIO DRWY'R RHEW

- Peidiwch â chynhyrfu a galwch am help.
- Arnofiwch ar eich cefn nes eich bod yn teimlo'n dawel, yna ceisiwch ddringo allan.
- Os na allwch chi ddringo allan, daliwch i arnofio a chadwch eich pen yn glir o'r dŵr.

## CADWCH BLANT AC ANIFEILIAID ANWES YN AGOS

- Dysgwch blant i gadw draw o'r rhew ac osgoi llifogydd.
- Cadwch gŵn ar dennyn ger rhew a glannau llithrig.

## OS GWELWCH CHI RYWUN MEWN TRAFFERTH – FFONIWCH 999

- Peidiwch â mynd i mewn i ddŵr oer, rhew neu ddŵr llifogydd i achub rhywun.
- Helpwch o bellter diogel. Defnyddiwch offer achub, rhywbeth sy'n arnofio neu rywbeth a allai helpu fel rhaff neu gangen coeden.

**MWYNHEWCH Y GAEAF YN DDIOGEL!**

## DIWEDDARIADAU DIOGELWCH LLIFOGYDD

**Cofrestrwch i gael rhybuddion llifogydd ar wefan Cyfoeth Naturiol Cymru.**

naturalresources.wales/flooding/sign-up-to-receive-flood-warnings

**Byddwch yn ymwybodol o'r tywydd a rhybuddion llifogydd.**